



ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI: GORFFENNAF 2025

Roedd y Corff Llywodraethol yn cynnwys (ar 30.06.25):

Cynrychiolwyr AALI*:	Dr. B. Bignold (2017), Cyng. S. Grady (2022), Mr M. Neale (2023), Ms S. Mcilvogue (2024).
Rhiant-Llywodraethwyr:	Mr P. Hughes (2014), Mrs K. Bond (2015), Mr M. Teasdale (2022), Mrs R. Jones (2024), Dr R. Walker (2024) a Ms S. Baldwin (2024).
Athro-Llywodraethwyr:	Mr R. Burrows (2012).
Cynrychiolydd Staff:	Swydd Wag.
Aelodau Cyfetholedig:	Mrs H. Roberts (2016), Ms E. Leighton-Jones (2023), Mrs S. Lesiter-Burgess (2024).

Gellir cysylltu â phob llywodraethwr trwy ysgrifennu at glerc y llywodraethwyr, Miss Lynn Jones, yn yr ysgol.

Cyfarfu'r Corff Llywodraethol fel Corff Llywodraethol Llawn ar 3 achlysur. Cyfarfu Pwyllgorau Personél a Chyllid 3 gwaith.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol ar y gyllideb, y cwricwlwm a sefydliad staffio'r ysgol yng ngoleuni'r dyraniad cyllideb a wnaed gan ALI Conwy. Mae datganiad y gyllideb ynghlwm.

Mae aelodau unigol o'r Corff Llywodraethol wedi mynychu sesiynau Hyfforddi Llywodraethwyr. Mae'r rhain yn cynnwys: RhCDdD (GDPR), Caethwasiaeth Fodern, Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl, Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi adolygu'r polisïau canlynol yn ystod 2024/25, ac yn cymeradwyo'n llawn arfer yr ysgol yn y meysydd canlynol: Derbyniadau, Digwyddiadau Critigol, Asesu, Urddas yn y Gwaith, Diogelu Plant, Gwahaniaethu, Recriwtio a Chadw, Ymddygiad Disgyblion, Cyffuriau ac Alcohol, Iechyd a Diogelwch, Dysgu Gartref, Diswyddo, Personél, Ymweliadau Addysgol, Arholiadau ac Asesiadau Rheoledig, Galluog a Thalentog, Absenoldeb Arbennig, Adolygiad Datblygiad Proffesiynol, Cydraddoldeb Strategol, Rheoli a Chyfyngu, Cyflog, Teithiau Dysgu, Gweithio Hyblyg, Diogelu Data, Absenoldeb Teuluol, Ystyriaeth Arbennig, Gwrthdaro Buddiannau, Rhyddid Gwybodaeth, Diogelwch Gwybodaeth, Mynediad at Wybodaeth, Camymarfer, Diogelwch Mynediad i Safleoedd ac E-Ddiogelwch.

Cwricwlwm yr Ysgol

Mae Cwricwlwm yr Ysgol yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol; Cwricwlwm i Gymru ac yn ymgorffori polisïau'r Corff Llywodraethol ac Awdurdod Addysg Conwy. Mae copïau o orchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, polisïau ysgol a datganiad cwricwlwm Awdurdod Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol. Ceir 25 o wersi yn ystod yr wythnos; 5 gwrs bob dydd, pob un yn 60 munud o hyd.

Blwyddyn 7 i 9

Mae'r Cwricwlwm i Gymru bellach wedi'i ymgorffori ar draws Blynyddoedd 7 - 9. Mae'n cael ei yrru gan yr ymdrech i fynd ar drywydd y 'Pedwar Diben' sy'n gyffredin i bob ysgol yng Nghymru. Y Pedwar Diben yw ein gweledigaeth ar gyfer pob plentyn; eu bod yn dod yn ddinasyddion uchelgeisiol, iach, creadigol a moesegol wybodus. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar ddysgu a wneir mewn ysgolion cynradd partner ac yn datblygu ymhellach wybodaeth a sgiliau disgyblion.

Mae pynciau’n cael eu grwpio yn MDPH - *meysydd dysgu a phrofiad*. Mae chwe MDPH - *leithoedd; Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Dyniaethau; Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles a Gwyddoniaeth a Thechnoleg*. Ym Mlwyddyn 7, mae disgyblion yn cael gwersi wythnosol mewn leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (*Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a Chymraeg*); Mathemateg, AG ac ABChI. Mae’r MDPH eraill yn cyflwyno’u cwricwlwm trwy ddull sy’n seiliedig ar brosiectau. Bydd disgyblion yn astudio dau brosiect ar yr un pryd am 10 wythnos cyn symud ymlaen at y ddau brosiect nesaf. Mae hyn yn golygu y byddant wedi cwblhau wyth prosiect ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPH) yn ystod Blwyddyn 7.

Blynyddoedd 8 a 9

Ym Mlynyddoedd 8 a 9, mae’r dysgu’n cael ei arwain gan themâu ysgol gyfan sy’n dod â phynciau ynghyd mewn ffyrdd ystyrlon a chyffrous. Mae pob thema’n gosod y llwyfan ar gyfer taith ddysgu 10 wythnos, gan ddarparu cyd-destun cyfoethog sy’n cysylltu gwersi ar draws y cwricwlwm. Ar ddiwedd pob bloc 10 wythnos, mae thema newydd yn dechrau—gan gynnig cyfleoedd ffres ar gyfer archwilio, creadigrwydd, a chysylltiadau trawsgwricwlaidd. Mae’r dull hwn nid yn unig yn cyfoethogi dysgu ond hefyd yn helpu disgyblion i weld y darlun ehangach a chymhwyso eu gwybodaeth mewn cyd-destunau byd go iawn.

Blynyddoedd 10 ac 11

Mae pob disgybl yn parhau i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol craidd, sef Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd a Bagloriaeth Cymru. Mae disgyblion hefyd yn cael y cyfle i barhau i ddewis cyrsiau i’w dilyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11.

Y Chweched Flwyddyn, Blynyddoedd 12 a 13

Mae cyfran helaeth o fyfyrwyr Blwyddyn 11 yn dychwelyd i Chweched Dosbarth Ysgol Aberconwy i ddilyn cyrsiau un neu ddwy flynedd. Mae’r mwyafrif yn dilyn cyrsiau sy’n arwain at dri phwnc Safon Uwch neu BTEC ynghyd â Bagloriaeth Cymru Uwch. Cynigir ystod eang o gyrsiau gan gynnwys cyrsiau ar y cyd â darparwyr eraill. Mae LINC Conwy yn darparu ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac analwedigaethol yn ychwanegol at hyn.

Dosbarth Confucius

Mae rhaglen yr ysgol a ariennir gan Confucius Classrooms, Caerdydd yn caniatáu i ddisgyblion yn yr ysgol astudio Mandarin a diwylliant Tsieinaidd. Darperir athro gan Lywodraeth Tsieina. Mae Ysgolion Cynradd Lleol hefyd yn elwa o'r cyfleuster.

Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nod y Polisi Cefnogi Dysgu yw adeiladu ar ddull ‘Cynhwysol’ o ddiwallu anghenion myfyrwyr. Mae’r strwythurau presennol sydd ar waith i wneud hyn yn cynnwys:

- Rhaglen Cymorth Dysgu ac ymyrraeth llythrennedd emosiynol.
- Rhaglen Dyfal Donc ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- Cynhwysiant Cymdeithasol – Canolfan Cefnogi Myfyrwyr (Hafan)
- Cefnogaeth ddynodedig yn y dosbarth ar draws y cwricwlwm
- Canolfan Dyslecsia Aberconwy (ABCD)
- Hwb ASA ‘Pontio’ yn cynnig blwch offer, cofrestru a chlybiau egwyl/cinio.
- Cefnogaeth 1:1 a grwpiau bach.
- Darpariaeth sirol ar gyfer disgyblion ag ASA (Tegfan)
- Grŵp cofrestru meithrin ym Mlwyddyn 7 – Morfa Bach.

Mae'r ysgol wedi cwblhau'r broses o drosglwyddo i'r system ADY newydd o fewn yr amserlenni penodedig lle mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd angen darpariaeth ychwanegol i'r hyn sydd ar gael i bawb trwy ddarpariaeth gyffredinol, wedi symud i CDU (cynllun datblygu unigol)

Mae gan y gofrestr ADY gyfansymiau fel y nodir yn y tabl isod ar gyfer y flwyddyn 2024-2025:

Blwyddyn	CDU Ysgol	CDU ALI	Cyfanswm
7	11	10	21
8	17	16	33
9	14	12	26
10	13	11	24
11	11	9	20
12	1	2	3
13	0	1	1

Cyfanswm	67	61	128
-----------------	-----------	-----------	------------

Mae’r ysgol yn defnyddio Eclipse, sef y meddalwedd a ddyluniwyd i sicrhau bod dogfennaeth ADY sy’n bwydo i mewn i’r CDUau (Cynlluniau Datblygu Unigol) yn cael eu cofnodi’n gywir ac yn cynnwys tystiolaeth gywir.

Mae’r system ADY newydd yn pwysleisio mwy o gydweithio, a phwysigrwydd darparu cefnogaeth a gwybodaeth er mwyn sicrhau bod plant a’u teuluoedd yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt.

Mrs Medwen Brookes yw’r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Ms E. Leighton-Jones yw’r Llywodraethwr a enwyd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig.

Disgyblion ag Anableddau

Ystyrir anghenion disgyblion ag angen neu anabledd dysgu penodol wrth drefnu a rheoli amgylchedd dysgu Ysgol Aberconwy. Gwneir defnydd priodol o wahaniaethu yng nghynnwys a dull cyflwyno’r cwricwlwm ar gyfer disgyblion dynodedig.

Mae pob ardal o’r ysgol yn hygyrch i fyfyrwyr anabl gyda mannau mynediad anabl yn eu lle. Mae’r adeilad yn gwbl gydnaws â’r DGA. Mae cynllun hygyrchedd llawn ar gael gan yr ysgol.

Datganiad ar Ddarpariaeth Gymraeg

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yw Ysgol Aberconwy, gyda’r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith ar draws pob ystod oedran a gallu. Mae’r ysgol yn cydymffurfio â gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac yn cyflwyno rhaglen astudio Cymraeg fel Ail Iaith (Cwrs Llawn) hyd at ddiwedd CA4.

Y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol, nod Ysgol Aberconwy yw sicrhau ethos sy’n gwireddu potensial cyfathrebol Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ac sy’n creu cyfleoedd i bwysleisio treftadaeth Cymru. Felly, mae datblygu cymuned ysgol ddwyieithog yn flaenoriaeth.

Mae disgyblion yn cael y cyfle i barhau i astudio’r Gymraeg fel iaith 1af hyd at lefel TGAU. Cylchredir rhestrau o ddysgwyr da/rhugl a nodwyd i annog yr holl staff i gyfathrebu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac anogir staff i gyfarch disgyblion yn Gymraeg. Mae pob gwasanaeth yn cynnwys peth cynnwys Cymraeg ac mae’r gwasanaeth Nadolig blyneddol a digwyddiadau cerddorol yn ddwyieithog. Mae ffocws ysgol gyfan ar iaith a diwylliant Cymru yn ystod yr wythnos Dathlu Dewi Sant flynyddol gyda’i gwasanaethau, gweithgareddau a chystadlaethau. Mae gan wefan yr ysgol opsiwn Gymraeg ac mae pob llythyr at rieni, cylchlythyr a deunydd hyrwyddo’r ysgol yn ddwyieithog. Arddangosir arwyddion a phosteri dwyieithog mewn mannau amlwg o amgylch yr ysgol, e.e. ffreutur, prif fynedfa, neuadd, llyfrgell ac ati, a hyrwyddir Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos ar sgrin wybodaeth y disgyblion. Cyferchir ymwelwyr â’r ysgol yn Gymraeg gan staff y swyddfa.

Mae’r ysgol yn parhau i gyflwyno enwau Cymraeg ar gyfer rhannau allweddol o’r ysgol gan sicrhau bod geiriau Cymraeg yn dod yn rhan arferol o’r iaith a ddefnyddir bob dydd yn yr ysgol. Yn ddiweddar iawn rydym wedi cyflwyno enwau mynyddoedd Cymru i’r gwahanol ddosbarthiadau yn Tegfan, gan gynnwys Aran, Arennig, Tryfan a Siabod, ac wedi enwi’r ddau brif fuarth yn ‘Y Sgwâr’ a ‘Glanrafon’. Rydym wedi comisiynu artist Cymraeg lleol i ddylunio a phaentio murluniau ar gyfer rhannau allweddol o’r ysgol fel ‘Y Porth’. Mae Luned Davies Parry, un o’r athrawon Cymraeg, wedi ysgrifennu cerdd sy’n tynnu sylw at arwyddocâd pob ardal allweddol ac mae’r rhain i’w gweld ar y murluniau.

Mae’r holl ddisgyblion sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd yn cael eu gosod mewn grwpiau dosbarth LLC ac yn cael tiwtor dosbarth sy’n siarad Cymraeg, sy’n rhoi’r cyfle iddynt ddefnyddio’r iaith bob dydd. Mae adnodd ‘Cic i’r bore’ wedi cael ei datblygu ar gyfer cyfnodau cofrestru blyneddol 7 ac 8, gan godi ymwybyddiaeth o ddyddiadau a digwyddiadau pwysig ar y calendr Cymraeg a chynyddu’r defnydd o’r Gymraeg trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau difyr. Mae ‘Clwb y Caban’ yn cael ei gynnal bob amser cinio, gydag ymweliadau rheolaidd gan yr Urdd, sy’n rhoi’r cyfle i fyfyrwyr gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r ysgol wedi bod yn gweithio ar y cynllun ‘Siarter Iaith’ a ni yw’r ysgol uwchradd gyntaf yn rhanbarth GwE Gogledd Cymru i dderbyn y wobwr arian. Cynlluniwyd hyn i ddatblygu ymhellach y defnydd o’r Gymraeg ar draws yr ysgol gan ddisgyblion a staff yn ogystal ag yn y gymuned leol. Rydym yn awr yn gweithio tuag at y wobwr aur.

Eisteddfod yr Urdd 2025 – Llwyddiannau Ysgol Aberconwy:

Rydym yn hynod falch o rannu cyflawniadau ein disgyblion talentog a fu'n cystadlu yn ddiweddar yn Eisteddfod yr Urdd 2025, ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae eu hymroddiad, eu creadigrwydd, a'u hangerdd dros y celfyddydau wedi disgleirio mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Isod ceir crynodeb o'u cyflawniadau rhagorol:

Celf a Chrefft – Rhanbarth Conwy

- Chyna Roberts (Blynnyddoedd 7–9) – 3ydd mewn Ffotograffiaeth
- Moli Owen (Blynnyddoedd 10–Dan 19) – 2il ar gyfer Darn Creadigol 2D
- Connor Brookshaw (Blynnyddoedd 7–9) – 2il ar gyfer Llun 2D
- Annabella Wise (Blynnyddoedd 7–9) –
 - 1af am Ddylunio crys T
 - 1af am Lun 2D
 - 1af mewn Cerameg
 - 1af ar gyfer Darn Creadigol 3D

Celf a Chrefft – Lefel Genedlaethol

- Annabella Wise (Blynnyddoedd 7–9) –
 - 3ydd ar gyfer Llun 2D
 - 1af mewn Cerameg

Mae llwyddiant eithriadol Annabella ar draws sawl categori yn dyst i'w sgiliau a'i hymroddiad.

Cystadleuaeth Goginio PobUrdd

- Gyda balchder, cynrychiolodd Carter Tawhai yr ysgol yn yr eisteddfod genedlaethol ym Mhort Talbot, gan arddangos ei dalentau coginio. Er na chafodd safle yn y tri uchaf ar y diwrnod, gwnaeth Carter argraff ar y beirniaid a chafodd y cyfle i goginio'n fyw ar y llwyfan — cyflawniad gwyach a phrofiad gwerthfawr.

Cystadlaethau Llwyfan - Adrodd

- Bu Faith Annabele ac Anabelle Eden (Blwyddyn 7) yn cystadlu yn y Gystadleuaeth Adrodd ranbarthol, gan sicrhau 1af ac 2il safle yn y drefn honno..
- Yna aeth Faith Annabele ymlaen i gynrychioli Ysgol Aberconwy ar y prif lwyfan yn yr eisteddfod genedlaethol ym Mhort Talbot — gan beri balchder mawr i'r ysgol.

Hoffem longyfarch ein holl ddisgyblion a gymerodd ran yn yr eisteddfod eleni. Mae eu gwaith caled, eu creadigrwydd a'u hyder yn ysbrydoliaeth i gymuned yr ysgol gyfan. Diolch yn fawr i'r holl staff a theuluoedd a gefnogodd eu teithiau.

Llwyddiant mawr i bawb – llongyfarchiadau mawr i bawb!

Manylion trefniadau i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

- Yn ystod y flwyddyn academiaidd hon, rydym wedi ehangu'r chwaraeon y mae gan fyfyrwyr fynediad iddynt, gyda phiclbêl yn rhan o'r cwricwlwm yn yr haf. Rydym wedi ehangu ein rhaglen allgyrsiol trwy weithgareddau llais y myfyriwr i ddarparu ystod ehangach o chwaraeon, fel Golff a Dartiau.
- Cynhaliwyd ein taith brofiad Pêl-droed gyntaf eleni, gyda thaith unwaith mewn oes i fyfyrwyr Blwyddyn 8, a fu'n ymweld â Madrid. Yn ystod y profiad diwylliannol anhygoel hwn, aethant i gartref Galacticos, Real Madrid – a chael hyfforddiant

arbenigol yng nghanolfan hyfforddi Valdebebas; Mynychwyd gêm LaLiga fyw yn stadiwm Atletico Madrid Metropolitano a buont yn chwarae yn erbyn 3 gwrthwynebydd lleol gwahanol. Profiad unwaith mewn oes i'r myfyrwyr, un na fyddent byth yn ei anghofio.

- Bu rhai llwyddiannau rhagorol i'n timau ysgol eleni yn Ysgol Aberconwy:
 - Fe wnaethon ni gynnwys pob tîm yng Nghwpan Pêl-droed Cymru, ac aeth pob tîm bechgyn ymlaen i ail rownd y cwpan.
 - Enillodd tîm Criced Merched Dan 13 Gystadleuaeth Criced Awyr Agored Ysgolion Eryri a chymhwyso yn yr 2il safle o rowndiau terfynol Gogledd Cymru, am le i gystadlu yn y Rowndiau Terfynol Rhanbarthol yn Sale ym mis Gorffennaf 2025.
 - Collodd Sgwad Rygbi Saith Bob Ochr Bechgyn Dan 13 yn Rownd Gynderfynol Saith Bob Ochr yr Urdd Gogledd Cymru.
 - Coronwyd tîm Athletau Bechgyn Dan 14 yn Bencampwyr Sir Conwy ym mis Mehefin ac maent yn Cynrychioli'r Sir ym Mhencampwriaethau Eryri.
 - Daeth tîm Athletau Merched Dan 16 yn 3ydd ym Mhencampwriaethau Conwy.
 - Parhaodd Timau Pêl-rwyd â'u goruchafiaeth ar draws y sir gyda'n Pencampwyr Dan 16 Conwy. Enillodd ein tîm Dan 16 eu lle ym Mhencampwriaethau Ann Smart Eryri, gan orffen yn 2il.
 - Roedd tîm Traws Gwlad Bechgyn Canol yn dominyddu a hwy oedd pencampwyr tîm y gystadleuaeth am yr ail flwyddyn yn olynol gyda 5 o'r tîm yn gorffen yn y 10 uchaf.

Llwyddiannau Unigol

- Lacey Williams – Pêl-rwyd Cymru dan 17 – Is-gapten Pencampwriaethau Ewrop yn Belfast Mawrth 2025; Academi Pêl-rwyd Ranbarthol Dan 17
- Olivia Jones - Academi Pêl-rwyd Ranbarthol Dan 17
- Annie Clarke – Academi Pêl-rwyd Ranbarthol Dan 17
- Amalie Jones - Academi Pêl-rwyd Ranbarthol Dan 17
- Betty Davies – Academi Pêl-rwyd Ranbarthol Dan 15
- Macie Williams – Pencampwr Carate Cymru Dan 16 (yr ail flwyddyn yn olynol)
- Jaxen Winmill – Carfan Ranbarthol Pêl-droed Cymru (2011)
- Harry Walker - Carfan Ranbarthol Pêl-droed Cymru (2012)
- Jaxen Winmill, Harry Walker, Jacob Brewer, Caleb Williams & Bobby Lavender – i gyd yn rhan o dîm pêl-droed Ysgolion Sir Conwy a enillodd Gwpan Rhyng-Sirol Cymru.
- Zach Jones - Medal Aur Codi Pwysau Cymru
- Shana Kelly - Llwybr Dan 18 Sir Forgannwg/Llwybr Cenedlaethol Cymru
- Lucas Thomas – Tîm Traws Gwlad Ysgolion Eryri
- Alfie Shiland – Tîm Traws Gwlad Ysgolion Eryri a'r Bechgyn Ysgol Ganol 3000m
- Luca Williams – Enillydd Digwyddiad Taith Iau Ping (Pwllheli)
- Nell Shannon – Carfan Hoci Eryri a'r Ganolfan Perfformiad Ranbarthol
- Finlay Shannon – Carfan Hoci Eryri a'r Ganolfan Perfformiad Ranbarthol
- Spencer Parry - Pencampwriaethau Bocsi'r Tair Gwlad – Caerdydd, Colli yn y Rownd Derfynol - 48Kg - categori iau; Pencampwriaethau Cymru – Caerdydd, Safle 1af - 48kg - categori iau, twrnameintiau Box Cup: Denmarc - safle 1af; DU - safle 1af
- **Pencampwriaethau Cenedlaethol yr Haf (Nofio) Cymru 2025**
 - Lucas Thomas - 1af - 50m,100m, 200m Broga, 2il - 200 Rhydd, 200IM, 50 Pili-pala
 - Ewan Leonard - 2il 200 Pili-Pala,1500m, 400 Rhydd, 3rd - 50 Pili-pala, 400IM, 100 Pili-pala
 - Martha Jones – cyrraedd 3 rownd derfynol
 - Enzo Shiland-Griffiths – cyrraedd 2 rownd derfynol
 - Kiera Williams – cyrraedd y digwyddiad
 - Lyla Williams – cyrraedd y digwyddiad
- **Pencampwriaethau Agored y Gaeaf Nofio Cymru.**
 - Lucas Thomas – 3ydd 100 Broga – a'r Rowndiau Terfynol
 - Cyrhaeddodd Ewan Leonard 2 rownd derfynol
 - Enzo Shiland - Griffiths – cyrraedd 2 rownd derfynol
- **Pencampwriaethau Cenedlaethol y Pasg Nofio Cymru**
 - Lucas Thomas 1af - 50m,100m,200m Broga. 100m Pili-pala
 - Enzo Shiland Griffiths – cyrraedd 2 rownd derfynol
- **Pencampwriaethau Cenedlaethol yr Haf Prydain 2026**

- Mae Lucas Thomas yn cystadlu yn y gystadleuaeth 100m Pili-pala'r haf hwn.

Iechyd a Lles

Mae darpariaethau Iechyd a Lles iACH Ysgol Aberconwy yn cael eu hystyried yn eang fel model o arfer gorau. Ni oedd un o'r ysgolion cyntaf i gyflogi arweinydd Iechyd a Lles ac ers hynny rydym wedi ymateb i anghenion ac ymddygiadau Iechyd a Lles ein myfyrwyr a'n staff ysgol gyfan. Rydym yn mabwysiadu agwedd ataliol at ein gwaith ac mae'r 5 ffordd at lesiant wrth wraidd popeth a wnawn. Mae grwpiau myfyrwyr fel y grŵp iACH, y cyngor ysgol a Thîm Chwaraeon Aberconwy yn llywio ac yn arwain ymgyrchoedd Iechyd strategol sy'n mynd i'r afael ag anghenion Iechyd penodol grwpiau blwyddyn neu gymdeithasol penodol.



Mae'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid wedi ail-achredu Ysgol Aberconwy fel 'Ysgol Iach' (*Atodiad I*) ac rydym wedi cael ein dewis fel un o ddim ond 9 ysgol ar draws y Deyrnas Unedig gyfan sy'n bodloni'r safon sy'n ofynnol i fod yn 'Ysgol Iach'. Rydym yn hynod falch o fod yr unig ysgol uwchradd (neu gynradd) yng Nghymru i gael y statws mawreddog hwn. Yn adroddiad 'Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl ac Emosiynol' Llywodraeth Cymru, adroddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod *"Ysgol Aberconwy yn ysgol eithriadol sy'n cael effaith sylweddol yn y sector addysg. Mae eu hymagwedd ragweithiol at hunanasesu'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a'i gwaith ym maes Iechyd a Lles emosiynol a meddyliol yn fodel i ysgolion eraill ei ddilyn."*

Mr Rhydian Jones (arweinydd Iechyd a Lles) yw'r athro llawn amser cyntaf i gael ei hyfforddi fel Hyfforddwr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Ers hynny mae wedi hyfforddi ac achredu dros 100 o aelodau Cyngor Conwy a staff Ysgol Aberconwy fel Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Gwahoddodd GwE Ysgol Aberconwy i gyflwyno ein gwaith ar les staff ar draws y rhanbarth cyfan ac roeddent yn ganmoliaethus iawn o'r gwaith a arweiniodd at ail-achredu 'Safon Iechyd Corfforaethol' a sut roedd ein rhaglen iACH yn ganolbwynt i'n blaenoriaethau ysgol ac yn amlwg yn ethos yr ysgol gyfan.

Rydym wedi cyflwyno ein gwaith iACH yng Nghynhadledd Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghaerdydd yn ogystal ag i holl gynrychiolwyr ysgolion iach ysgolion uwchradd a chynradd Conwy. Rydyn ni'n rhannu ein gwaith Iechyd a Lles gyda'n hysgolion cynradd bwydo fel bod negeseuon cyson am sut beth yw ffordd iach a chytbwys o fyw. Mae ein cwricwlwm newydd Cyfnod Allweddol 3 yn canolbwyntio ar bwysigrwydd dull cyfannol o ymdrin â Lles a pha mor bwysig yw gofalu am 'Fy Nghorff' (Iechyd Corfforol), 'Fy Mywyd' (Iechyd Cymdeithasol) a 'Fy Meddwl' (Iechyd Meddwl).

Yn fwyaf diweddar, mae Ysgol Aberconwy wedi cael ei chynnwys fel Astudiaeth Achos 'Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion Rhyngwladol' (SHRN) ar sut rydym yn annog hylendid ac arferion cysgu cadarnhaol (Atodiad II). Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi cyfle inni ddatblygu ein darpariaethau iACH, ABCh ac ARhPh ymhellach ac rydym yn gyffrous iawn am y posibilrwydd o barhau i gynnig nofio goroesi personol, trampolinio, Cinbêl, Picbêl ac ymweliadau â bwthyn Bod-silin fel darpariaethau cwricwlwm ac allgyrsiol.

Codi Arian Cymunedol

Mae apeliadau codi arian Ysgol Aberconwy yn parhau i fynd o nerth i nerth. Y llynedd codwyd swm anhygoel o £5243 tuag at Plant Mewn Angen fel rhan o'n hapêl elusennol genedlaethol. Yn ddiweddar, rydym wedi lansio ein gwobr 'Arwyr Aberconwy' i gydnabod prif godwyr arian yr ysgol y flwyddyn honno. Enillydd eleni oedd Anelise Pierce (myfyrwraig blwyddyn 8) a gododd swm anhygoel o £1085 drwy feicio 220 milltir dros 44 diwrnod (i gydnabod 44fed apêl Plant mewn Angen eleni). Ymhlith yr enillwyr blaenorol mae Joshua Page (myfyrwraig blwyddyn 10) a gododd £375 drwy feicio i gopa'r Wyddfa a Mr Chris Kitchen a gododd dros £500 drwy gwblhau Hanner Marathon Conwy.

Rydym bellach yn ein trydedd flwyddyn yn arwain apêl Elusen Leol FirstGive blwyddyn 7 lle mae pob dosbarth blwyddyn 7 yn dewis eu helusen leol eu hunain i'w chefnogi ac yn cael eu gwahodd i gynllunio gweithred gymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau ymwybyddiaeth a chodi arian. Eleni rydym yn gobeithio adeiladu ar y £3000 anhygoel a godwyd ar y cyd â'n taith gerdded nodedig ysgol gyfan yn ystod tymor yr Haf. Allwn ni ddim aros i weld pa weithgareddau codi ymwybyddiaeth gymdeithasol a chodi arian y mae ein blwyddyn 7 presennol wedi'u cynllunio i gefnogi Hosbis Dewi Sant, Tŷ Gobaith, Hope Restored, Alder Hey a Chyn-filwyr Dall eleni!

Yn ogystal â'r apelïadau hyn rydym wedi sefydlu partneriaeth gref gyda Banc Bwyd Conwy gydag apelïadau a chasgliadau rheolaidd. Rydym hefyd wedi partneru gyda'r Eglwys yng Nghonwy gyda dros 50 o'n teuluoedd mwyaf anghenus yn elwa o fasgedi bwyd 'Bagiau Cariad' misol yn cael eu dosbarthu i'w drws. Mae gennym fyfyrwyr a gwirfoddolwyr staff sy'n helpu gyda phacio a dosbarthu bwyd ac sy'n codi arian i sicrhau llwyddiant parhaus y gefnogaeth amhrisiadwy hon.

Dyddiadau Tymor 2025 – 2026

**TYMOR YR HYDREF
2025**

*Dyddiau Hyfforddi Staff	**01/09/2025 *02/09/2025 *27/11/2025
Dechrau Tymor	03/09/2025
Cau am Hanner Tymor	24/10/2025
Agor ar ôl Hanner Tymor	03/11/2025
Diwedd Tymor	19/12/2025
GWYLIAU NADOLIG	

**TYMOR Y GWANWYN
2026**

* Dyddiau Hyfforddi Staff	*27/02/2026
Dechrau Tymor	05/01/2026
Cau am Hanner Tymor	13/02/2026
Agor ar ôl Hanner Tymor	23/02/2026
Diwedd Tymor	27/03/2026
GWYLIAU'R PASG	

TYMOR YR HAF 2026

* Dyddiau Hyfforddi Staff	*29/06/2026
Dechrau Tymor	13/04/2026
Calan Mai	04/05/2026
Cau am Hanner Tymor	22/05/2026
Agor ar ôl Hanner Tymor	01/06/2026
Diwedd Tymor	17/07/2026
GWYLIAU'R HAF	

Toiledau

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiledau helaeth a gynhelir i safon uchel iawn gan y contractwr PFI. Mae'r bloc newydd, a ddyluniwyd mewn ymgynghoriad â'r cyngor ysgol, yn darparu toiled mynediad agored o ansawdd uchel sy'n hawdd ei oruchwylio ac sydd wedi bod yn boblogaidd iawn gyda disgyblion.

Diweddariad ar y Gyllideb

Alldro

2023-24

2024-25

Costau Staff	6,338,564	6,982,447
Safle	793,151	906,665
Cludiant	14,079	26,259
Cyflenwadau a Gwasanaethau	663,651	568,576
Cyfanswm Gwariant Net	7,809,445	8,483,947
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael	7,976,093	8,463,672
Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen	166,648	(20,275)

Adnoddau

2023-24

2024-25

Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen	386,835	166,648
Dyraniad Cyn 16	6,199,346	6,729,611
Dyraniad Ôl-16	695,612	612,298
Dyraniad EIG	63,075	132,831
Grant Dysgu Proffesiynol	27,854	28,809
Grantiau Eraill	603,371	793,475
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael	7,976,093	8,463,672
Cyfanswm Gwariant Net	7,809,445	8,483,947
Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen	166,648	(20,275)

Gwybodaeth am Gyrchfannau

Cyrchfannau Blynnyddoedd 11 a 13 (2024 – 25)

	B11		B13	
	Nifer	%	Nifer	%
Continuing in full-time education - Same School Parhau mewn addysg amser llawn - Yr un ysgol	59	41.84%	0	0.00%
Continuing in full-time education - School Parhau mewn addysg amser llawn - Ysgol	1	0.71%	0	0.00%
Continuing in full-time education - College Parhau mewn addysg amser llawn - Coleg	63	44.68%	2	3.57%
Continuing in full-time education - HE Parhau mewn addysg amser llawn - AU	0	0.00%	35	62.50%
Continuing in Part time Education Parhau mewn addysg ran-amser	2	1.42%	0	0.00%
Entering employment outside WBTP Dechrau cyflogaeth tu allan i Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc	2	1.42%	15	26.79%
Entering WBTP (employed status) Dechrau Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc (statws cyflogedig)	4	2.84%	2	3.57%
Entering WBTP - (without employed status) Dechrau Hyfforddiant Seiliedig ar Waith i Bobl Ifanc (heb statws cyflogedig)	0	0.00%	0	0.00%
Able to Enter Emp, Ed or WBTP (Unemployed) Yn gallu cael mynediad at Gyflogaeth, Addysg neu WBTP (di-waith)	3	2.13%	2	3.57%
Unable OR NOT READY to enter Emp, Ed or WBTP (e.g. due to illness, custodial sentence) Methu NEU DDIM YN BAROD i gael mynediad at Gyflogaeth, Addysg neu WBTP (e.e. salwch, dedfryd o gaethiwd)	5	3.55%	0	0.00%
Known to have left the area Yn hysbys iddynt adael yr ardal	2	1.42%	0	0.00%
Not responding to follow-up and therefore unknown Dim ymateb i'r arolwg, felly'n anhysbys	0	0.00%	0	0.00%
Total number of 2024 statutory school leavers Cyfanswm y gadawyr ysgol statudol yn 2024	141	100.00%	56	100.00%

Gwybodaeth am Berfformiad

Mae crynodeb o wybodaeth am berfformiad yr ysgol ar gael [yma](https://mylocalschool.gov.wales/) neu drwy <https://mylocalschool.gov.wales/>